OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2058 (Cy.177)

# Y GWASANAETHIECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009

*Gwnaed - - - - 23 Gorffennaf 2009*

*Yn dod i rym - - 1 Awst 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 18(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraffau 5 a 7 o Atodlen 3 iddi(**1**), ac adran 25 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodir o dan adran 18(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009 a daw i rym ar 1 Awst 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i ("*operational date*") ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 1 Awst 2009;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "yr ymddiriedolaeth" ("*the trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**Sefydlu'r ymddiriedolaeth**

**2.** Sefydlir ymddiriedolaeth GIGo'r enw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru neu the Public Health Wales National Health Service Trust.

**Natur a swyddogaethau'r ymddiriedolaeth**

**3.**—(1) Sefydlir yr ymddiriedolaeth at y diben a bennir yn adran 18(1) o'r Ddeddf.

(2) Dyma swyddogaethau'r ymddiriedolaeth:

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) 1993 p.38.